Adroddiad ar

Ysgol Llangelynnin

Henryd
Conwy
LL32 8YB

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Llangelynnin

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Llangelynnin |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Eglwys Yng Nghymru |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 79 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 60 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 12 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 4.9% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 10.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 43.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/01/2020 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 22/04/2018 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 10/02/2025 |

Daw’r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i’r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae’r term ‘anghenion dysgu ychwanegol’ yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae arweinyddiaeth gadarn y pennaeth, ynghyd â staff cydwybodol yr ysgol, yn meithrin lles, gofal a Chymreictod disgyblion yn effeithiol. Maent yn adnabod eu disgyblion yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Mae'r ymdeimlad cartrefol a chynhwysol yn cefnogi disgyblion i arddel agweddau cadarnhaol at eu dysgu.

Mae staff yn cydweithio'n ddiwyd i gynnig cwricwlwm cyfoethog sy'n ysgogi a meithrin brwdfrydedd disgyblion. Mae'r cwricwlwm wedi'i seilio ar yr ardal leol ac yn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau'n fuddiol. Mae staff yn cydweithio â rhieni a'r gymuned i ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o'u cynefin, gan gynnig cyfleoedd gwerthfawr iddynt ddathlu eu Cymreictod.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn cynllunio amgylcheddau dysgu pwrpasol i gefnogi'r addysgu a'r dysgu yn effeithiol. Mae athrawon yn gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod y rhan fwyaf o weithgareddau yn ennyn diddordeb y disgyblion ac yn datblygu ystod o fedrau'r disgyblion yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu gweithgareddau sydd yn cynnig digon o her i ddisgyblion er mwyn eu hymestyn i gyflawni hyd eithaf eu gallu. Mae athrawon yn defnyddio dulliau holi ac anogaeth amserol er mwyn cefnogi cynnydd disgyblion a sicrhau eu dealltwriaeth. Maent yn rhannu adborth yn amserol sy'n galluogi disgyblion i adnabod beth maent wedi ei wneud yn dda. Er hyn, nid yw'r adborth yn nodi'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion yn ddigon effeithiol.

Mae'r pennaeth a'r staff yn cael eu cefnogi'n frwd gan lywodraethwyr sy'n llwyr ymroddedig i lwyddiant yr ysgol. Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gweithio'n agos â staff er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth a'r safonau dysgu. Yn dilyn gweithgareddau monitro, maent yn rhannu gwybodaeth am eu canfyddiadau yn briodol, gan ymateb yn brydlon i'r hyn sydd angen ei wella.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1. Sicrhau lefel briodol o her i gefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau hyd orau eu gallu

A2. Sicrhau bod ansawdd adborth athrawon yn targedu'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion yn effeithiol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae arweinyddiaeth effeithiol a chadarn y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol ac yn creu diwylliant sy'n hyrwyddo gwelliant parhaus yn llwyddiannus. Mae'r pennaeth yn arddel gweledigaeth yr ysgol yn glir i sicrhau bod 'lles, llawenydd a llwyddiant' yn treiddio drwy bob agwedd o waith yr ysgol. Mae ymdeimlad cryf o deulu wedi ei wreiddio yn yr ysgol, ac mae'r berthynas waith gynhaliol a chyfeillgar sy'n bodoli rhwng staff a disgyblion yn nodwedd gref.

Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel o'i hun, y staff a'r disgyblion sy'n cyfrannu'n sylweddol at greu ethos gofalgar, gweithgar a Chymreig ar draws yr ysgol. Cefnogir y pennaeth gan dîm o staff ymroddgar ac effeithiol. Maent yn cydweithio'n ddiwyd er mwyn sicrhau profiadau ysgogol sy'n cymell y disgyblion ac yn meithrin eu chwilfrydedd naturiol yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn dangos agweddau at ddysgu ac ymddygiad arbennig.

Mae arweinwyr yn creu diwylliant cadarnhaol sy'n blaenoriaethu cyfleoedd dysgu proffesiynol cyson i'r holl staff. Cânt eu hannog i ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol ac arbrofi â'u dulliau addysgu. Er enghraifft, yn dilyn hyfforddiant ar ddatblygu medrau disgyblion, mae'r staff yn addasu eu darpariaeth o fewn a thu allan i'r dosbarth i gynnig mwy o gyfleoedd i ddisgyblion weithio'n fwy annibynnol.

Mae'r ysgol yn ystyried cyfraniadau disgyblion yn dda er mwyn darparu cwricwlwm sy'n ysbrydoli a chyfoethogi profiadau dysgu disgyblion, gan sicrhau ei fod yn berthnasol i'w cyd-destun a'u cynefin. Mae treftadaeth Gymreig yn elfen annatod o gwricwlwm yr ysgol, ac mae'r staff yn cynllunio sesiynau'n ofalus sy'n tanio chwilfrydedd disgyblion at ddysgu. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys teithiau i'r eglwys leol wrth droed mynydd Tal y Fan ac ymweliadau â mannau o bwys hanesyddol yn y gymuned er mwyn annog disgyblion i ddeall sut mae eu cynefin wedi newid dros amser. Mae hyn, yn ei dro, yn cryfhau dealltwriaeth disgyblion o'u cynefin. Beth bynnag fo'u cefndir ieithyddol, mae athrawon a staff yn sicrhau bod disgyblion yn dod i siarad Cymraeg yn gyflym. Mae hyn yn gryfder ac yn cael effaith gadarnhaol ar falchder disgyblion at eu hiaith.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn cynllunio amgylcheddau dysgu pwrpasol i gefnogi'r addysgu a'r dysgu yn effeithiol. Maent yn defnyddio adnoddau dysgu ysgogol a graenus, er enghraifft drwy ddefnyddio coed, morthwyl a hoelion yn y gweithdy er mwyn i'r disgyblion

greu cerbydau argyfwng. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gysylltu'n uniongyrchol â'u dysgu mewn sefyllfaoedd go iawn.

Yn ystod gweithgareddau dysgu, mae athrawon yn defnyddio dulliau holi ac anogaeth amserol er mwyn cefnogi cynnydd disgyblion a sicrhau eu dealltwriaeth. Maent yn rhannu adborth yn amserol sy'n galluogi disgyblion i adnabod beth maent wedi ei wneud yn dda. Er hyn, nid yw'r adborth yn nodi'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion yn ddigon effeithiol. Mae athrawon yn defnyddio asesiadau o'r hyn mae disgyblion yn ei gyflawni yn gyson, a deilliannau asesiadau achlysurol i gynllunio gweithgareddau. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob tro'n darparu gweithgareddau sy'n cynnig digon o her i ddisgyblion er mwyn eu hymestyn i gyflawni hyd eithaf eu gallu.

Mae athrawon a staff yn datblygu medrau disgyblion yn effeithiol, gan adeiladu'n dda ar eu dysgu blaenorol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ac yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd, rhifedd, a digidol ynghyd ag ystod eraill o fedrau mewn amrywiol feysydd dysgu. Mae arweinwyr yn ymwybodol o'r angen i barau i flaenoriaethu agweddau penodol o fedrau digidol disgyblion ymhellach. Mae darpariaeth effeithiol i gefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau creadigol a'u doniau celfyddydol yn llwyddiannus.

Bron heb eithriad, mae disgyblion yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae natur ofalgar yr ysgol yn hyrwyddo ymddygiad da ymysg disgyblion ac yn eu hannog i ofalu am, a pharchu, ei gilydd. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn gwrtais â'i gilydd, staff ac ymwelwyr ac yn cefnogi'u cyfoedion yn gynhaliol. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn rhoi ystyriaeth ofalus i anghenion y rhai ieuengaf ar y buarth ac yn ystod amser cinio.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso'r ysgol yn gadarn. Mae gan y pennaeth a'r staff drefniadau pwrpasol ar gyfer monitro a gwella'r ddarpariaeth a chyflawniad disgyblion. Maent yn casglu gwybodaeth o ystod dda o ffynonellau amrywiol ac yn defnyddio'r wybodaeth yn llwyddiannus i nodi'r meysydd i'w gwella.

Mae'r llywodraethwyr yn gweithredu'n effeithiol. Mae ganddynt wybodaeth gadarn am berfformiad ac effaith gweithdrefnau'r ysgol ar gynnydd a lles disgyblion. Maent yn rhannu cyfrifoldebau yn gydwybodol ac yn cynnal ymweliadau pwrpasol i werthuso effaith y ddarpariaeth ar safonau a chynnydd disgyblion. Agwedd nodedig o waith y llywodraethwyr yw'r ffordd maent yn ymateb yn brydlon i feysydd sydd angen eu gwella. Er enghraifft, yn dilyn canfyddiadau craffu ar lyfrau, mae'r llywodraethwyr wedi cynnig addasiadau bwriadus i gynlluniau'r ysgol ar gyfer datblygu medrau ysgrifennu disgyblion. Mae hyn, yn ei dro, yn arwain at gynnydd cyflym ym medrau llythrennedd bron bob disgybl.

Mae’r pennaeth wedi datblygu perthnasoedd hynod gynhyrchiol â rhieni. Mae’n weledol ac yn cyfathrebu â rhieni yn gyson er mwyn eu hysbysu am ddigwyddiadau ac i godi ymwybyddiaeth am gyflawniadau a llwyddiannau disgyblion.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynllunwiyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 14/04/2025